


# Siarad Dysgu Gwneud

Rhieni, Plant ac Arian

**Pecyn Hwylusydd**

Helpwr Arian

Llywodraeth EM

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan ddefnyddio gwybodaeth o Made of Money, sef prosiect gan Quaker Social Action. Gwiriwyd yr holl wybodaeth yn y llyfryn hwn cyn ei gyhoeddi a hyd eithaf ein gwybodaeth mae'n gywir. Nid yw HelpwrArian yn gyfrifol am wallau, hepgoriadau na gwybodaeth nad yw'n berthnasol mwyach. Ceisiwch gyngor arbenigol os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch ag unrhyw beth a gwmpesir yn y llyfryn hwn.

QUAKER SOCIAL ACTION

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND

Gwasanaeth Arian a Phensiynau



# Deunyddiau Sesiwn 2 Awr

## Cynllun Sesiwn, Taflenni Twyllo, Taflenni a Chardiau Gweithgareddau

| | Gweithgaredd | Nodau y mae hyn yn cysylltu â nhw | Deunyddiau | Amser y Gweithgaredd (Cyfanswm Munudau) |
|---|---|---|---|---|
| | **Croeso a mewngofnodi o'r wythnos flaenorol** | | | 10 (10 mun) |
| 1 | **Modelu Arian**<br>Gofynnwch i rieni ddychmygu bod estron wedi dod i'r ddaear ac yn eu dilyn o gwmpas am rai dyddiau. Nid yw'r estron yn gwybod dim am arian, mae ganddo Saesneg gyfyngedig a dealltwriaeth gyfyngedig iawn o'r byd.<br>Sut byddai'r estron yn gweld arian yn cael ei ddefnyddio? Beth fydden nhw'n ei ddysgu? Beth fyddai'n eu drysu? Beth fydden nhw'n ei wneud/meddwl am arian ar ôl ein gwylio?<br>Nawr dychmygwch mai'r estroniaid hyn yw ein plant - dyma sut y gallai pethau edrych iddyn nhw. Beth allwn ni ei wneud i'w helpu?<br>*Gweler y Daflen Twyllo am sut i redeg y gweithgaredd hwn.* | Mae rhieni'n dechrau meddwl am yr hyn y mae plant yn ei ddysgu am arian, sut maen nhw'n gweld arian yn ein cymdeithas, a lle gallai'r bylchau fod.<br>Mae rhieni'n deall pam mae angen i ni fynd ati i addysgu ein plant am arian a'u rôl allweddol yn hyn o beth.<br>Mae rhieni'n dechrau meddwl am yr amrywiaeth o leoedd y mae plant yn cael negeseuon am arian ohonynt. | Lluniau estroniaid (cardiau A5, 2 set o 6 estron)<br>Modelu Arian<br>Taflen Twyllo | 15 (25) |



| | Gweithgaredd | Nodau y mae hyn yn cysylltu â nhw | Deunyddiau | Amser y Gweithgaredd (Cyfanswm Munudau) |
|---|---|---|---|---|
| 2 | **Cyflwyniad - nodau allweddol ar gyfer diwrnod a thrafodaeth**<br>Esboniwch y pethau rydych chi'n edrych arnyn nhw heddiw<br>• Meddwl pam fod angen i ni ddysgu plant am arian o oedran ifanc.<br>• Archwilio ffyrdd o addysgu plant am arian trwy brofiadau bob dydd.<br>• Trafod opsiynau arian poced.<br>• Meddwl am yr hyn yr ydym am i'n plant ei ddysgu am arian a sut i drosglwyddo hyn.<br>• Strategaethau ar gyfer delio â heriau, er enghraifft poeni.<br>Arwain trafodaeth fer gyda'r rhieni am eu plant ac arian, *gan ddefnyddio'r cwestiynau ysgogi yn y Daflen Twyllo.* | Mae rhieni'n dechrau deall bod oedrannau rhwng 3 a 7 oed (a 7+)<br>i gyd yn oedrannau allweddol ar gyfer dysgu am arian.<br>Mae rhieni'n dechrau gweld eu rôl fel athrawon wrth helpu<br>eu plant i ddysgu am arian.<br>Mae rhieni'n deall pam mae angen i ni addysgu ein<br>plant am arian. | Cyflwyniad y Daflen Twyllo | 10 (35) |



| | Gweithgaredd | Nodau y mae hyn yn cysylltu â nhw | Deunyddiau | Amser y Gweithgaredd (Cyfanswm Munudau) |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **Taith Siopa – addysgu plant am arian trwy brofiadau bob dydd**<br>Dosbarthwch y senario i'r grŵp. Darllenwch hwn fel grŵp a thrafodwch y cwestiynau.<br>*Gweler y Daflen Twyllo am awgrymiadau i'r drafodaeth.* | Mae rhieni'n deall sut i addysgu eu plant am arian trwy weithgareddau bob dydd.<br>Mae rhieni'n cynyddu nifer y sgyrsiau a gânt gyda'u plant am arian. | Senario Taith Siopa<br>Taflen Twyllo Senario Taith Siopa | 15 (50) |
| 4 | **Pŵer Poeni**<br>Yn y senario taith siopa, mae trafodaethau am blant yn gofyn am bethau yn debygol o fod wedi codi.<br>Rhowch yr Arwyddion Pŵer Poeni i fyny bob ochr i'r ystafell. Darllenwch y datganiadau ar y Daflen Twyllo yn uchel, a gofynnwch i bobl symud i arwyddion "Bydda i'n Rhoi Cynnig ar Hynny" neu "Fydda i ddim yn Rhoi Cynnig ar Hynny" yn dibynnu a ydyn nhw'n cytuno neu'n anghytuno. Fel arall, gofynnwch i bobl sefyll ar eu traed os ydyn nhw'n meddwl "Bydda' i'n Rhoi Cynnig ar Hynny", neu aros yn eistedd os nad ydyn nhw'n meddwl y bydden nhw'n rhoi cynnig arni. | Mae rhieni'n datblygu strategaethau ar gyfer delio â phwysau gan blant. | Arwyddion Pŵer Poeni<br>Taflen Twyllo Pŵer Poeni | 10 (60) |
| | | **EGWYL** | | 10 (70) |



**Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian**
Cynllun Sesiwn Gweithdy Cwrs i Rieni

| | Gweithgaredd | Nodau y mae hyn yn cysylltu â nhw | Deunyddiau | Amser y Gweithgaredd (Cyfanswm Munudau) |
|---|---|---|---|---|
| 5 | **Trafodaeth Arian Poced**<br>Gosodwch y pedwar cerdyn opsiwn arian poced.<br>Naill ai mewn parau, grwpiau bach, neu fel grŵp cyfan trafodwch fanteision ac anfanteision pob opsiwn arian poced.<br>*Gweler y Daflen Twyllo am awgrymiadau'r drafodaeth.* | Mae rhieni'n deall opsiynau ynghylch arian poced.<br>Mae rhieni'n deall pam ei bod yn ddefnyddiol rhoi arian poced.<br>Mae rhieni'n edrych ar ffyrdd o roi'r profiad i'w plant o reoli eu harian eu hunain. | Cardiau Arian Poced A4 x 4<br>Taflen Twyllo Arian Poced | 15 (85) |
| 6 | **Trafodaethau ar Arian, beth ydyn ni'n siarad amdano?**<br>Gosodwch y cardiau A4 ag ystodau oedran gwahanol arnynt. Yna rhowch gardiau i rieni yn nodi pethau y gallent siarad amdanynt (er enghraifft o ble mae arian yn dod neu sut i arbed arian). A yw rhieni wedi rhoi'r cardiau trafod gyda'r oedran ieuengaf y maent yn credu y byddent yn cael y drafodaeth gyda'u plant. Atgyfnerthwch nad oes ateb cywir, felly efallai na fyddant yn cytuno ond mae'n bwysig meddwl am beth sy'n gweithio i bob teulu.<br>*Gweler y Daflen Twyllo am gwestiynau ysgogi wrth i chi fynd ymlaen.* | Mae rhieni'n cynyddu nifer y sgyrsiau ynghylch arian gartref.<br>Mae rhieni'n cynyddu eu dealltwriaeth o wahanol ffyrdd o gynnwys plant ynghylch arian.<br>Mae rhieni'n ddigon hyderus i addysgu eu plant am arian.<br>Mae rhieni'n treulio mwy o amser yn addysgu eu plant am arian. | Cardiau Oedran Trafodaeth ar Arian<br>Cardiau Syniadau Trafodaeth ar Arian<br>Taflen Twyllo Trafodaeth ar Arian | 15 (100) |

| | Gweithgaredd | Nodau y mae hyn yn cysylltu â nhw | Deunyddiau | Amser y Gweithgaredd (Cyfanswm Munudau) |
|---|---|---|---|---|
| 7 | **Beth nawr?**<br>Gofynnwch i rieni feddwl am dri pheth yr hoffent i'w plant eu dysgu am arian. Os yn bosibl, cofnodwch y rhain ar y daflen weithgaredd.<br>Nawr gofynnwch iddyn nhw feddwl beth maen nhw eisiau dechrau ei wneud **nawr** i helpu eu plant i ddysgu. Anogwch nhw i wneud yn siŵr eu bod yn nodau realistig, er enghraifft gallai fod yn dechrau jar geiniog gartref i ddangos cynilion, yn hytrach na rhoi £10 yr wythnos o'r neilltu gyda'i gilydd. | Mae rhieni'n treulio mwy o amser yn addysgu plant am arian.<br>Mae rhieni'n cynyddu nifer y sgyrsiau ynghylch arian gartref.<br>Mae rhieni'n hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o wahanol ffyrdd o gynnwys plant mewn trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch arian. | Taflen Weithgaredd Beth Nawr<br>Taflen Twyllo Beth Nawr | 5 (105) |
| 8 | **Beth allwch ei wneud gartref**<br>Dosbarthwch y llyfryn rhieni. Nodwch adrannau gan gynnwys:<br>• Addysgu am arian ar wahanol oedrannau<br>• Addysgu am arian trwy siopa<br>• Arian poced<br>• Pŵer poeni<br>• Ble i gael rhagor o help (yn arbennig o ran eu harian eu hunain)<br>Anogwch rieni i adolygu'r rhain nawr, ond hefyd wrth i'w plant dyfu i fyny i barhau i feddwl am ffyrdd i'w haddysgu wrth iddynt fynd yn hŷn. | Mae rhieni'n hyderus ac yn dechrau addysgu eu plant am arian gartref.<br>Yn ategu pob un o'r nodau uchod. | Llyfrynnau | 5 (110) |
| 9 | **Dirwyn i Ben** | | | 10 (120) |



## 1. Modelu Arian (15 munud, yn gorffen 25 munud i mewn i'r sesiwn)


**Nod: Helpu rhieni i feddwl am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu am arian. Trwy ddefnyddio estron, mae rhieni'n gallu cael hwyl a pheidio â'i bersonoli i'w plant neu eu hunain.**

Trefnwch hwn fel **gweithgaredd grŵp cyfan**. Gofynnwch i **rieni ddewis estron** o'r lluniau yn eich pecyn. Efallai y bydd angen i grwpiau mawr rannu estroniaid.

**Esboniwch** fod yr estron wedi dod i ddysgu am arian ar y Ddaear ac yn mynd i'w dilyn o gwmpas am ychydig ddyddiau. Nid yw'r estron yn gwybod dim am arian na'r Ddaear, ac nid yw'n deall ond ychydig o Saesneg.

**Cwestiynau i'w gofyn:**

- Beth fyddai'r estron yn ei ddysgu am arian o'ch gwylio chi?
- Ble fyddent yn eich gweld chi'n defnyddio arian?
- A fyddent yn gweld arian parod neu gardiau? Beth fyddent yn ei feddwl am gardiau debyd a chredyd?
- Sut olwg fyddai ar daith i'r archfarchnad iddyn nhw?
- Beth fyddent yn ei fedddwl am beiriannau arian parod (ATMs)? Arian yn ôl?
- Beth fyddent yn ei weld wrth wylio'r teledu neu agor cylchgrawn?
- Sut olwg fyddai ar fancio neu siopa ar-lein? Talu biliau?
- A fyddai arian yn gwneud synnwyr? Beth fyddai'n eu drysu?
- Pe byddent yn ceisio ein copïo pa fath o bethau y byddent yn eu gwneud? Beth fyddent yn ei feddwl am arian? A fyddent yn ei gynilo? Ei wario?




> Enghreifftiau y gallech eu rhoi os oes angen annog y grŵp:
>
> Yn y siop rydych yn codi bwyd, yn tapio cerdyn ar sgrin, ac efallai'n cael mwy o arian yn ychwanegol at eich bwyd. Os ydych yn talu ag arian parod, rydych yn rhoi arian ac yn cael arian arall yn ôl. Pan ydych yn mynd i beiriant arian rydych yn rhoi cerdyn i mewn ac yn cael arian parod. Mae'n hawdd cael arian ar y Ddaear!
>
> Efallai y bydd rhaid i rai pobl dalu neu "ychwanegu" i gael nwy/trydan/ffôn, ond nid yw'r estroniaid yn gweld eraill yn gwneud unrhyw beth i dalu…Maen nhw'n cael gwres, trydan a galwadau ffôn am ddim!
>
> Rydych yn archebu pethau ar y cyfrifiadur, nid oes angen arian arnoch chi, ac maent yn cyrraedd eich drws. Gwych! Mae'r estroniaid yn clywed pobl yn siarad am bethau maen nhw wedi'u prynu ond nid sut wnaethon nhw gynilo i'w cael.
>
> Mae rhai pobl yn siarad am gynilo, ond fel arfer nid yw'r estroniaid yn gweld sut olwg sydd arno.


Nawr gofynnwch i'r rhiant ddychmygu mai eu plentyn/plant yw'r estron hwn. Esboniwch i rieni mai dyma sut y gallai plant edrych ar arian – ni fydd llawer ohono'n gwneud synnwyr. Iddyn nhw, mae'r peiriant arian parod a'r siopau yn rhoi arian am ddim. Mae rhieni'n prynu'r hyn maen nhw ei eisiau ond nid yr hyn y mae'r plant ei eisiau. Mae'n ymddangos bod llawer o bethau'n rhad ac am ddim.


Mae hyn yn golygu bod gennym gyfle cyffrous i addysgu ein plant. Pwysleisiwch nad yw hyn yn golygu bod angen i ni reoli arian yn berffaith! Hyd yn oed os ydym yn cael problemau ag arian gallwn addysgu ein plant. Bydd sgyrsiau syml am arian a gwneud pethau sylfaenol gartref yn addysgu llawer o'r hyn y mae angen iddynt ei wybod i blant reoli eu harian yn dda nawr ac wrth iddynt dyfu'n oedolion.


Mae copïau o'r lluniau estroniaid isod wedi'u cynnwys yn y pecyn hwylusydd
















**Siarad, Dysgu, Gwneud: Rhieni, Plant ac Arian**
Prif Sesiwn: Modelu Arian, Taflen Twyllo Hwylusydd

## 2. Cyflwyniad – Trafodaeth (10 munud, yn gorffen 35 munud i mewn i'r sesiwn)

**Nod: Annog rhieni i feddwl am blant ac arian, y negeseuon y mae plant yn eu cael, a'u rôl eu hunain wrth addysgu eu plant am arian.**

**Yn gyntaf, esboniwch mai'r pethau rydych yn edrych arnynt heddiw yw:**

- meddwl am pam fod angen i ni addysgu plant am arian o oedran ifanc
- trafod y dewisiadau a wnawn am arian a'r dewisiadau y mae ein plant yn eu gwneud. Gall deall y dewisiadau hyn helpu ein plant i ddysgu mwy am arian.
- archwilio ffyrdd o addysgu plant am arian trwy brofiadau bob dydd
- trafod manteision ac anfanteision gwahanol opsiynau ynghylch arian poced
- archwilio ein pŵer personol ein hunain ar gyfer dewis strategaethau i ddelio â heriau h.y. poeni
- meddwl am yr hyn yr ydym am i'n plant ei ddysgu a sut i addysgu hyn.

Fel grŵp cyfan, arweiniwch drafodaeth am arian. Mae'r cwestiynau i'w gofyn mewn print trwm, ac yna syniadau am awgrymiadau os oes angen.

- **Ble mae plant yn dysgu am arian neu'n cael negeseuon am arian?**
  - Rhieni/gofalwyr (noder bod y gair rhieni'n cyfeirio at y ddau drwy gydol y sesiwn)
  - Teidiau a neiniau, modrybedd, ewythrod ac aelodau hŷn eraill o'r teulu
  - Brodyr a chwiorydd, cefndryd
  - Ffrindiau
  - Hysbysebion, teledu, cylchgronau, hysbysfyrddau a'r rhyngrwyd
  - Teithiau allan
  - Yr ysgol
  - Chwarae

Mae ymchwil yn dangos bod plant yn dysgu fwyaf am arian gan eu rhieni, a'u bod yn fwyaf tebygol o ddod at rieni gyda chwestiynau am arian. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i ni reoli ein harian ein hunain yn berffaith i'w helpu i ddysgu. Mae'n rheswm da i ddechrau meddwl am yr hyn y gallwn siarad amdano, ei ddangos iddynt, a ffyrdd y gall plant ddysgu.

- **Pam ei bod yn bwysig i blant ddysgu am arian yn ifanc?**
  - Mae sut rydym yn ymdrin ag arian fel oedolion yn cael ei ffurfio gan yr hyn a welwn, a ddysgwn ac a wnawn yn ystod plentyndod.
  - Gall ein hagweddau at gynilo, ein gallu i gynilo, ac a ydym yn gweld arian fel rhywbeth i boeni amdano fod ar waith erbyn saith oed.
  - Rhieni sy'n chwarae'r rhan bwysicaf wrth helpu eu plentyn i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt, fel nad yw'r ffordd y maent yn rheoli arian yn eu dal yn ôl pan fyddant yn oedolion.
  - Mae angen i blant weld sut mae arian yn cael ei ddefnyddio, deall y dewisiadau sy'n rhaid eu gwneud a chael y cyfle i ymarfer gyda rhywfaint o'u harian eu hunain.
  - Os nad yw plant yn cael y cyfle i ymarfer ag arian pan maen nhw'n iau, y tro cyntaf iddyn nhw reoli eu harian eu hunain yw pan fydd y sefyllfa'n ddwysach, a bydd canlyniadau camgymeriadau'n fwy difrifol.
  - Mae rhai rhieni'n credu bod angen 'gwarchod' neu 'amddiffyn' eu plant rhag arian ond bydd hyn mewn gwirionedd yn achosi mwy o broblemau i'w plant yn y tymor hir.
  - Yn y tymor byr, gall plant sy'n dysgu'r sgiliau hyn fod yn llai tebygol o boeni rhieni sy'n lleihau straen i rieni.

Mae plentyndod yn amser pwysig ar gyfer dysgu, gan gynnwys gwneud camgymeriadau. Mae gwneud camgymeriadau ag arian yn helpu plant i ddysgu pan yw'r sefyllfa'n llai dwys. Os ydynt yn gwario eu holl arian ar losin ac yna'n methu fforddio gêm, byddant yn dysgu am gynilo a gwneud dewisiadau. Mae'r effaith yn llai na phe byddent fel oedolyn yn gwario eu holl arian ar fynd allan ac yn methu â fforddio'r rhent.

- **Pa fath o arferion, sgiliau a gwybodaeth y gall plant eu dysgu ar gyfer rheoli arian?**
  - Y gallu i aros am bethau.
  - Cynilo ar gyfer pethau maen nhw eu heisiau.
  - Sut i wneud dewisiadau a'u hesbonio.
  - Deall na allant gael popeth y maent ei eisiau.
  - Deall angen yn erbyn eisiau.
  - Cadw arian yn ddiogel.
  - Cyllidebu, er enghraifft cynllunio sut y byddant yn gwario eu harian.
  - Gwario llai ar bethau (diffodd goleuadau, prynu eitemau rhatach).





- **Pam y byddem eisiau cynllunio'r hyn rydym yn ei addysgu yn hytrach na'i wneud yn iawn wrth i ni fynd ymlaen?**
  - Yn draddodiadol, mae rhieni wedi addysgu eu plant am arian wrth i'r cyfleoedd godi.
    Fodd bynnag, mae arian bellach yn llai gweladwy (er enghraifft defnyddio cardiau, gwario ar-lein, peidio â mynd i mewn i fanciau), sy'n golygu bod llai o rieni'n siarad â'u plant am arian.
  - Mae ffyrdd newydd o addysgu'ch plant am arian i'w helpu nawr ac yn y dyfodol.
  - Gallwn gynllunio'r hyn rydym am iddynt ei ddysgu yn hytrach nag ymateb i sefyllfaoedd yn unig.
  - Gallwn gynllunio trafodaethau cartref ynghylch sut rydym yn gwario arian.
  - Gallwn sicrhau bod yr hyn rydym yn ei addysgu iddynt yn briodol i'w hoedran.
  - Os ydym yn poeni am siarad am rywbeth neu am wrthdaro yna gall cynllunio sgyrsiau ein helpu i deimlo'n fwy hyderus.
  - Gall fod yn haws siarad am gredoau teuluol ynghylch arian fel hyn.

Mae esbonio beth sy'n digwydd yn helpu'r cyfan i wneud synnwyr. Mae plant yn ein gweld ni'n prynu pethau. Os ydyn nhw'n gofyn am rywbeth ac rydyn ni'n dweud, "na!" gall eu drysu a'u gwneud yn rhwystredig.

Yn lle hynny, gallwn esbonio "Ni allwn brynu hwnnw ar hyn o bryd gan nad oes gennym arian ychwanegol ar ei gyfer. Mae gennym arian ar gyfer y pethau sydd eu hangen arnom megis bwyd, ond nid arian ychwanegol ar gyfer ein dymuniadau ar hyn o bryd. Ond gallwch chi gynilo ar ei gyfer."

Mae cynllunio'r hyn rydym yn ei addysgu'n ein helpu i drosglwyddo ein gwerthoedd ynghylch arian ac esbonio beth sy'n bwysig i ni. Os ydym am i'n plant fod yn gynilwyr da, gallwn siarad am pam y byddem am gynilo a ffyrdd o gynilo. Cofiwch, efallai na fyddant yn ein gweld yn cynilo arian o ddydd i ddydd.




## 3. Addysgu Plant Trwy Weithgareddau Bob Dydd - Taith Siopa (15 munud, yn gorffen 50 munud i mewn i'r sesiwn)

**Nod: Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio i helpu rhieni i feddwl am sut y gallant addysgu eu plant am arian trwy weithgaredd bob dydd — taith siopa yn yr achos hwn.**

**Dosbarthwch y Senario Taith Siopa.** Fel grŵp, darllenwch drwyddo a gofynnwch i'r rhieni drafod y cwestiynau. Mae awgrymiadau isod.

**Meddyliwch am yr hyn y gallai Jan ei wneud:**

- **Cyn iddyn nhw fynd i siopa**
  - Gofynnwch i'r plant helpu i gynllunio un pryd neu beth sydd angen iddi ei brynu.
  - Gwnewch restr.
  - Esboniwch i'r plant mai'r rhestr yw'r hyn **mae hi ei eisiau**, ond weithiau y gallwch ychwanegu ychydig o ddymuniadau, er enghraifft tretiau.
  - Os yw hi'n mynd i brynu unrhyw dretiau, ychwanegwch nhw nawr.
  - Gwiriwch y cwpwrdd am yr hyn sydd ganddi yn barod.
  - Ar gyfer plant hŷn, siaradwch am y gyllideb ar gyfer y daith siopa.
  - Penderfynwch a oes rhywbeth y mae'r plant yn mynd i'w brynu eu hunain. Os felly, gwnewch yn siŵr bod ganddynt arian (er enghraifft o arian poced). Gadewch iddynt ofalu am eu harian eu hunain os ydynt yn ddigon hen.
  - Bwytewch cyn mynd allan fel nad yw'r plant yn llwglyd.
- **Pan ydynt yn cyrraedd yr archfarchnad**
  - Atgoffwch y plant am y rhestr siopa.
  - Diolch iddynt ymlaen llaw am eu holl gymorth.
  - Siaradwch am drefn y siop - mae siopau eisiau i chi brynu pethau a gwario arian. Allwch chi fod yn drech na nhw?
    - Mae ffrwythau a llysiau yn aml wrth y fynedfa gan eu bod yn gwneud elw mawr ar y rhain.
    - Mae hanfodion yn cael eu gwasgaru drwyddi draw, yn aml ar yr ymylon - mae hyn yn golygu bod rhaid i chi gerdded heibio popeth arall i'w cyrraedd.
    - Mae cynhyrchion drutach ar lefel llygad, brandiau rhatach i lawr yn isel.
    - Mae cynhyrchion plant yn aml ar lefel eu llygaid.
- **Wrth iddynt fynd o gwmpas y siop**
  - Os bydd y plant yn gofyn am bethau nad ydynt ar y rhestr, atgoffwch nhw fod rhaid iddynt gadw at y rhestr gan mai dyna beth mae ganddynt arian ar ei gyfer.
  - Gofynnwch i'r plant helpu i ddod o hyd i bethau.
  - Helpwch y plant i gymharu prisiau.
  - Os bydd y plant yn cynhyrfu am beidio â phrynu rhywbeth, defnyddiwch strategaeth pŵer poeni (byddwch yn gwneud hyn yn y gweithgaredd nesaf).
  - Edrychwch ar ddeunydd pecynnu a siarad am sut maen nhw'n marchnata i blant.
  - Cymharwch gynigion arbennig, ond esboniwch mai dim ond cynnig da ydyw os bydd ei angen arnom.
  - Diolch i'r plant am eu hymddygiad da ac am fod mor barod i helpu.









- **Wrth y til**
  - Gofynnwch i'r plant sylwi ar y ffordd y mae siopau'n ceisio gwerthu melysion neu fyrbrydau i chi wrth y til.
  - Gofynnwch i'r plant roi pethau ar y gwregys i'w cadw'n brysur.
  - Os ydych yn talu ag arian parod, gofynnwch iddynt dalu. Gall plant hŷn gyfrifo'r newid a'i wirio.
  - Os ydych yn talu â cherdyn, esboniwch o ble y daw'r arian i dalu am hyn.
  - Esboniwch am gadw arian a rhifau pin yn ddiogel.
  - Gwiriwch fod y dderbynneb yn gywir.
  - Canmolwch y plant am eu cymorth.
- **Pam fyddai Jan eisiau cynllunio sut mae hi'n mynd i addysgu ei phlant am arian, yn hytrach na dim ond gwneud hyn pan fydd y foment yn codi?**
  - Gall Jan feddwl beth mae hi eisiau ei addysgu i'r plant a ffyrdd o wneud hyn.
  - Gall hyn helpu i leihau straen a delio â phoeni.
  - Gellir cynllunio trafodaethau ac felly maent yn debygol o fynd yn well.
  - Mae hyn yn golygu bod ganddi amrywiaeth o strategaethau y gall eu defnyddio i ddelio â sefyllfaoedd anodd.

> Cofiwch, plant yw blant a byddant yn gofyn am bethau. Mae hynny'n normal. Yr hyn y gallwn ei reoli yw sut rydym yn ymateb iddo. Gallwn esbonio pam nad ydym yn prynu rhywbeth, a beth yw eu dewisiadau (er enghraifft, i gynilo ar ei gyfer neu i'w roi ar restr).
>
> Os byddant yn cael stranc does dim rhaid i ni ildio. Yn hytrach, gallwn ei weld fel cyfle i'w helpu i ddysgu hunanreolaeth a bod na'n golygu na. Yn y pen draw, byddant yn dysgu na fydd hyn yn cael yr hyn y maent ei eisiau ac yn lle hynny siarad amdano.
>
> Mae teithiau siopa'n lle gwych i addysgu plant am frandiau, hysbysebu a marchnata. Mae'n hwyl cael plant i'ch helpu i drechu'r siopau ac arbed arian.

Mae copïau o'r senarios teithiau siopa yn y llun isod wedi'u cynnwys yn y pecyn hwylusydd



## 4. Pŵer Poeni (15 munud, yn gorffen 60 munud i mewn i'r sesiwn)

**Nod: Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi syniadau i rieni ar gyfer delio â 'pŵer poeni', neu blant yn gofyn am bethau.**

Bydd angen i chi **redeg y gweithgaredd hwn yn gyflym** oherwydd amser, felly defnyddiwch ef fel **egniolwr**. Ar un ochr i'r ystafell gosodwch yr arwydd Byddaf yn Rhoi Cynnig ar Hwn. Ar yr ochr arall rhowch yr arwydd Ni fyddaf yn Rhoi Cynnig ar Hwn. Mae'r arwydd Dw i ddim yn siwr yn mynd yn y canol.

**Darllenwch yn uchel y ffyrdd o ymateb i blant yn poeni.** Gofynnwch i **rieni sefyll** wrth yr arwydd sy'n cyfateb i'r hyn y maent yn ei feddwl. **Gofynnwch i** ychydig o rieni pam eu bod yn sefyll yno. Dywedwch wrth y rhieni nad oes atebion cywir ac i feddwl beth fyddai'n gweithio iddyn nhw a'u teulu. (Os nad oes gennych le, gofynnwch i'r rhieni sefyll os ydynt yn meddwl Byddaf yn Rhoi Cynnig ar Hwn ac eistedd os ydynt yn meddwl Na Fyddaf yn Rhoi Cynnig ar Hwn).

Dechreuwch bob datganiad gyda **Pan fydd eich plant yn poeni (daliwch ati i ofyn) am bethau**

- Atgoffa nhw eich bod wedi dod â rhestr siopa ac yn gorfod cadw ati gan mai dim ond arian ar gyfer y pethau hynny sydd gennych heddiw.
- Atgoffa nhw eich bod wedi dod â rhestr siopa ac yn gorfod cadw ati - ond sleifio i mewn ychydig o bethau ychwanegol pan nad ydynt yn edrych.
- Dweud "Gallaf weld eich bod wir eisiau'r tegan hwnnw, a gawn ni siarad amdano?"
- Dweud "Na" ond pan fyddant yn cael stranc prynwch ef i'w hatal rhag sgrechian gan ei fod yn peri embaras.
- Cynnig eu helpu i feddwl am ffyrdd y gallent gynilo ar ei gyfer.
- Prynu ef oherwydd maent wedi bod yn dda y diwrnod hwnnw.
- Dweud "Peidiwch â'm poeni i, mae'n fy ngyrru'n wallgof!"
- Rhoi benthyg arian iddynt i'w brynu (ond sut y byddant yn ei dalu'n ôl?).
- Anwybyddu nhw.
- Dweud na allwch chi brynu hwnnw heddiw ond byddwch yn ei ysgrifennu ar gyfer eu rhestr syniadau pen-blwydd neu wyliau.

**Os oes amser, gofynnwch i'r rhieni**

- A oes ganddynt unrhyw strategaethau y gallant eu hawgrymu?
- A oes rhai y byddant yn dechrau eu defnyddio nawr?

Rhowch wybod i rieni bod rhagor o syniadau yn y pecyn y byddant yn ei dderbyn.

Atgoffwch y rhieni ei fod yn normal i blant ofyn am bethau. Mae hysbysebion, pwysau gan gyfoedion a marchnata yn gwneud iddynt fod eisiau pethau. Fodd bynnag, nid yw'n golygu bod rhaid ichi roi popeth y maent ei eisiau iddynt. Mae'n cymryd amser i newid, felly os yw plant wedi arfer cael yr hyn y maent ei eisiau efallai y byddant yn cynhyrfu. Ond gydag amser bydd plant yn newid sut maent yn ymateb. Peidiwch â phoeni am ymatebion gan eraill.

Mae dweud na a glynu ato, yn arbennig os ydych yn ei ddefnyddio fel cyfle i siarad â'ch plant, yn eu helpu i ddysgu hunanreolaeth, i ddeall anghenion yn erbyn dymuniadau, ac i gynilo ar gyfer pethau. Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer eu dyfodol.





Mae copïau o arwyddion y gweithgaredd wedi'u cynnwys yn y pecyn hwylusydd











## EGWYL (10 munud, yn gorffen 70 munud i mewn i'r sesiwn)









## 5. Gêm Arian Poced (15 munud, yn gorffen 85 munud i mewn i'r sesiwn)

**Nod: Cyflwyno rhieni i wahanol opsiynau ynghylch arian poced.**

Mae'r gweithgaredd yn amlinellu nifer o opsiynau gwahanol ynghylch sut y gallai teuluoedd reoli arian poced. Gall rhieni drafod manteision ac anfanteision pob un. Yna mae rhieni'n meddwl beth fyddai'n gweithio orau i'w teulu a'r hyn y gall plant ei ddysgu o gael arian poced.

**Gellir gwneud y gweithgaredd hwn fel grŵp mawr, mewn grwpiau bach, neu mewn parau.** Dewiswch yr opsiwn sy'n gweithio orau i'ch grŵp.

Gosodwch y cardiau Opsiwn Arian Poced A4. Esboniwch fod y rhain yn enghreifftiau o ffyrdd y gallai rhieni reoli arian poced. Darllenwch y rhain i'r rhieni. Naill ai trafodwch bob un fel grŵp cyfan neu rhowch gerdyn i grwpiau bach/parau i'w drafod a rhoi adborth arno.

Gofynnwch i'r rhieni ddarllen y cerdyn yn uchel (neu ddarllen hwn iddyn nhw os yw llythrennedd yn broblem) a thrafod y manteision a'r anfanteision (buddiannau a rhwystrau) i'r opsiwn. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am:

- A fyddai'r opsiwn hwn yn rhoi'r cyfle i blant ddysgu am arian?
- Sut byddai'n helpu i leihau straen o ddydd i ddydd? A allai leihau poeni?
- A fyddai'n caniatáu i'r plentyn reoli ei arian ei hun?

Mae enghreifftiau o fanteision ac anfanteision ar gyfer pob opsiwn ar y taflenni canlynol os oes angen annog rhieni.

Ar y diwedd, anogwch nhw i feddwl am (hyd yn oed os na allwch chi drafod hyn fel grŵp)

- Pa un fyddai orau i chi fel teulu?
- Beth yw oedran da i ddechrau arian poced?
- Beth os na allwch fforddio arian poced rheolaidd?
- A ddylai plant gael eu gorfodi i gynilo ychydig o'u harian poced (er enghraifft 5c, 50c) bob wythnos ar gyfer nodau tymor hwy (fel prifysgol)?

Esboniwch y bydd rhagor o syniadau am arian poced yn y llyfryn, ond atgyfnerthwch fod arian poced yn ffordd ddefnyddiol o roi eu harian eu hunain i blant ei reoli. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddysgu cyllidebu, cynilo, a gwneud camgymeriadau – tra bod yr "hyn sydd yn y fantol" yn llawer is.

> Esboniwch i'r rhieni nad yw arian poced yn ymwneud â faint, mae'n ymwneud â rhoi'r cyfle i blant ymarfer rheoli eu harian eu hunain. Os yw rhiant yn teimlo na allant ei fforddio, mae'n werth iddynt edrych ar faint y maent yn ei wario ar eu plant. A allai rhywfaint o hwn fod yn arian poced y gall plant brynu eu tretiau eu hunain ohono? Bydd hyd yn oed swm bach iawn yn helpu plant i ddysgu.

## Enghreifftiau o fanteision ac anfanteision ar gyfer pob opsiwn

**Peidio â rhoi arian poced iddynt. Rhoi arian iddynt pan ydynt ei eisiau ar gyfer teganau**

Manteision

- Does dim rhaid i chi gofio rhoi arian rheolaidd.

Anfanteision

- Nid yw plant yn dysgu sut i gynilo'n rheolaidd.
- Nid yw plant yn cael cyfle i gynilo ar gyfer pethau'n rheolaidd.
- Mae plant yn dal i ofyn am bethau.
- Rhaid i rieni negodi bob tro y bydd plant yn gofyn – a fyddant yn ei brynu ai peidio?
- Mae llai o gysondeb, felly bydd plant yn ei chael yn anoddach dysgu i gyllidebu.
- Nid yw plant yn dysgu gwerth pethau.

(Gallai fod yn fantais neu'n anfantais)

- Gall rhieni brynu tretiau iddynt yn rheolaidd (efallai y bydd rhai rhieni yn gweld hyn yn gadarnhaol, ond gallai fod yn anfantais gan nad yw plant yn dysgu cyllidebu a chynilo ar gyfer pethau y maent eu heisiau).
- Bod â rheolaeth dros yr hyn y maent yn ei brynu.

**Rhoi arian poced wythnosol iddynt brynu eu losin neu deganau eu hunain (ac eithrio penblwyddi, gwyliau)**

Manteision

- Mae plant yn dysgu rheoli arian rheolaidd.
- Mae plant yn dysgu i gynilo.
- Gallai plant wneud "camgymeriadau" ond dysgu o hyn.
- Mae llai o bwysau ar rieni i brynu pethau.
- Pan yw plant yn rhoi pwysau, gall rhieni atgoffa plant bod ganddynt eu harian eu hunain.
- Gall teuluoedd drafod sut maent y gwario eu harian.
- Mae plant yn dysgu gwerth pethau.

Anfanteision

- Mae'n rhaid i rieni gofio rhoi arian rheolaidd.
- Efallai na fydd gan rieni arian i'w roi'n rheolaidd (ond atgoffwch rieni nad oes angen iddo fod yn swm mawr bob wythnos).
- Mae gan rieni lai o gyfleoedd i brynu pethau i blant yn rheolaidd (y mae rhai rhieni efallai'n colli eu gwneud, tra bod eraill yn gweld hyn fel rhywbeth cadarnhaol gan fod llai o bwysau arnynt).



**Faint o arian poced ddylwn i ei roi?**

Atgoffwch y rhieni nad oes "swm cywir" o arian poced. Mae'n rhaid iddo gyd-fynd â'u cyllideb, eu credoau eu hunain ynghylch arian, a bod yn addas ar gyfer oedran eu plentyn. Wrth iddynt benderfynu faint y maent am ei roi, dylent feddwl am yr hyn y maent yn disgwyl i'w plant ei wario ac a oes angen iddynt neilltuo cynilion bob wythnos. Meddyliwch hefyd pryd y bydd yn cynyddu – gyda phob pen-blwydd? Unwaith y byddant yn cyrraedd y cam nesaf yn yr ysgol? Unwaith eto, nid oes ateb cywir ac nid yw'n ymwneud â'r swm – mae'n ymwneud â chael y cyfle i ymarfer rheoli arian.





**Mae plant yn ennill eu harian poced trwy wneud tasgau o gwmpas y tŷ.**

Manteision

- Mae plant yn dysgu gweithio am eu harian.
- Mae plant yn fwy tebygol o wneud tasgau pan ofynnir iddynt.
- Gallai plant wneud "camgymeriadau" ond dysgu o hyn.
- Mae gan blant arian i'w reoli (os ydynt yn gwneud eu tasgau).

Anfanteision

- Nid yw plant yn cael arian rheolaidd.
- Mae angen system talu/cadw golwg ar rieni.
- Efallai y byddai plant yn ei chael yn anoddach cynilo gan nad yw arian yn rheolaidd.
- Mae rhai teuluoedd yn teimlo y dylai plant wneud tasgau oherwydd y gofynnir iddynt, nid oherwydd eu bod yn cael eu talu.

**Rhoi arian poced iddynt pan fydd arian sbâr.**

Manteision

- Gall rhieni roi arian iddynt pan ydynt yn gallu ei fforddio.
- Nid oes rhaid iddynt gofio rhoi arian rheolaidd.
- Mae plant yn dysgu nad oes digon o arian bob amser ar gyfer pethau.

Anfanteision

- Mae plant yn cael llai o gyfleoedd i drin arian.
- Efallai na fydd plant yn gallu cynilo.
- Nid yw plant yn dysgu rheoli arian yn rheolaidd a chyllidebu.
- Mae plant yn dal i ofyn am bethau.
- Mae teuluoedd yn debygol o barhau i wario arian ar dretiau.


**Cynilo**


Mae rhai teuluoedd yn mynnu bod eu plant yn cynilo rhan o'u harian poced bob wythnos. Bydd faint yn dibynnu ar y teulu, a faint mae'r plentyn yn ei gael. Efallai y bydd ganddynt gronfa ar wahân ar gyfer yr arian hwn, ac yna'n mynd ag ef i'r banc neu'r undeb credyd bob ychydig wythnosau neu fisoedd. Mae hyn yn annog plant i ddysgu cynilo'n rheolaidd.

Mae rhai teuluoedd hefyd yn cael eu plant i roi arian i elusen bob wythnos neu fis, i rannu gwerth teuluol o roi.

Efallai y bydd rhai rhieni'n dweud nad ydynt am i'w plant orfod meddwl am arian na phoeni amdano. Atgoffwch nhw fod hyn yn ymwneud â meddwl am arian mewn ffyrdd sy'n briodol i'w hoedran ac y bydd y profiad hwn yn golygu bod arian yn llai tebygol o fod yn bryder iddynt.


Mae copïau o'r cardiau opsiwn arian poced A4 ar gael yn y pecyn hwylusydd














## 6. Taflen Twyllo Trafodaethau Arian (15 munud, yn gorffen 25 munud i mewn i'r sesiwn)

**Nod: Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio i helpu rhieni i feddwl am yr oedran gorau i ddechrau trafodaethau am faterion ariannol ac i annog rhieni i ddechrau gwneud hyn.**

Mae hwn yn cael ei redeg fel gweithgaredd grŵp cyfan. Ar y bwrdd neu'r llawr, **gosodwch y cardiau oedran A4**:

- 3-4
- 5-6
- 7-9
- 10-11
- efallai pan ydyn nhw'n hŷn

Mae rhieni wedyn **yn cael cardiau syniad trafod**. Mae'r cardiau'n bethau y gallen nhw siarad â'u plant amdanyn nhw ynghylch arian. *Os yw llythrennedd yn broblem, darllenwch y cardiau i'r rhieni.*

Gofynnwch i'r **rhieni ddarllen y cardiau syniad trafod,** a phenderfynu beth fyddai'r oedran cywir i ddechrau siarad â'u plant am hyn.

Mae amser yn brin, felly anogwch benderfyniadau cyflym gan eu hatgoffa nad oes ateb cywir, efallai na fyddant yn cytuno ac mae hynny'n iawn. Y syniad yw meddwl beth sy'n iawn i'r teulu.

Wrth i chi fynd ymlaen, anogwch y drafodaeth ag ychydig o gwestiynau:


- Beth fyddai hyn yn ei addysgu i'ch plentyn?
- Sut gallai hynny eu helpu wrth iddynt fynd yn hŷn?
- Sut gallai eich helpu chi fel teulu (er enghraifft lleihau gofynion a straen)?

Drwyddi draw, ailadroddwch y bydd addysgu plant am arian o oedran cynnar yn eu helpu i reoli arian yn well fel oedolion. Gellir dysgu'r sgil hon, fel llawer o rai eraill.

Bydd hefyd yn helpu i leihau straen gartref ynghylch arian gan y bydd plant yn dechrau deall bod arian yn gyfyngedig, a bod rhaid i ni wneud dewisiadau ynghylch yr hyn rydym yn gwario ein harian arno. Fel gydag unrhyw beth, nid yw'n golygu na fydd ein plant byth yn gofyn am bethau, nac yn cynhyrfu am beidio â'i gael, ond fel teulu bydd gennych yr iaith a'r offer i siarad amdano tra hefyd yn datblygu sgiliau gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.

Ailadroddwch nad oes angen i ni reoli ein harian ein hunain yn berffaith i gael y sgyrsiau hyn.

Mae copïau o gardiau oedran A4 a chardiau syniadau trafod yn y llun isod wedi'u cynnwys yn y pecyn hwylusydd























Mae copïau o gardiau oedran A4 a chardiau syniadau trafod yn y llun isod wedi'u cynnwys yn y pecyn hwylusydd
















## 7. Beth nawr? a Llyfryn (10 munud, yn gorffen 110 munud i mewn i'r sesiwn)


**Nod: Helpu i ddod â'r hyn a ddysgwyd o'r sesiwn ynghyd ac i rieni feddwl am yr hyn y byddant yn ei roi ar waith gartref.**

Atgoffwch y rhieni eu bod wedi treulio heddiw yn meddwl am ffyrdd y gallant siarad â'u plant a'u haddysgu am arian, i'w helpu nawr ond hefyd i'w helpu i reoli arian yn well wrth iddynt dyfu'n hŷn.

**Dosbarthwch** y taflenni gweithgaredd Beth Nawr? **Gofynnwch i'r rhieni feddwl am 3 pheth** hoffent i'w plant ddysgu am arian wrth iddynt dyfu'n hŷn a dod yn oedolion. Gofynnwch iddynt ysgrifennu eu syniadau ar y taflenni gweithredu. (Os oes angen help arnynt i ysgrifennu gallech hefyd ysgrifennu'r rhain ar siart troi neu lenwi'r taflenni ar eu rhan).


Enghreifftiau o bethau y mae rhieni wedi siarad amdanynt:

- Cynilo
- Cyllidebu
- Gwybod y gwahaniaeth rhwng angen ac eisiau
- Byw o fewn eu cyllideb
- Rhoi arian i elusen
- Aros am bethau



Nawr gofynnwch i'r rhieni **ysgrifennu pethau y gallant eu gwneud gartref** i helpu eu plant i ddysgu'r pethau hyn. Anogwch y grŵp i barhau i ddod yn ôl at y daflen hon i'w hatgoffa, ac i feddwl am bethau newydd wrth iddynt dyfu'n hŷn.


**Wedyn, dosbarthwch y llyfryn i rieni yn dangos y gwahanol adrannau iddynt.**







Mae copïau o'r taflenni gweithredu 'Beth Nawr?' wedi'u cynnwys yn y pecyn hwylusydd












Helpwr Arian

Darparwyd gan

Gwasanaeth Arian a Phensiynau